Y Dylluan Wen

Enw Cyffredin Tylluan Wen Enw Gwyddonol Tyto alba

Disgrifiad

Mae gan y dylluan wen wyneb siâp calon, cefn ac adenydd melynllwyd ac is-rannau gwyn llachar sy'n ei gwneud hi'n un o'n hadar mwyaf nodweddiadol. Fodd bynnag, mae ei harferion nosol i raddau helaeth yn golygu na ellir ei gweld hyd nes bod rhywun yn clywed ei sgrechiadau ysbrydol.

Mae tylluanod gwynion yn bwydo ar anifeiliaid bach yn bennaf, yn enwedig llygod y gwair, ond maent hefyd yn bwyta chwistlod, llygod, llygod mawr ac adar. Mae cyflenwad bwyd ac felly arferion bwyta'r dylluan wen yn hanfodol i'w llwyddiant. Yn ddelfrydol, rhaid iddi gael ardaloedd agored o borfeydd garw gyda gwrychoedd, a chaeau sydd ag ymylon o laswellt garw iddynt. Un o'u hoff gynefinoedd yw stribedi o borfeydd garw â ffensys.

Wrth hela, mae'r dylluan wen yn defnyddio seiniau amledd uchel a geir o'i hysglyfaeth i'w chanfod yn y tywyllwch. Mae'r dylluan wen yn dal ei hysglyfaeth gyda'i chrafangau miniog, ac wedyn ei llyncu'n gyfan. Ar ôl treulio'r ysglyfaeth chwydir pelen sy'n cynnwys sborion fel esgyrn, dannedd a ffwr.

Mae'r dylluan wen yn nythu mewn mannau tywyll a chysgodol y tu mewn i adeiladau yn enwedig hen ysguboriau neu dyllau dwfn mewn coed. Mae angen man nythu lle na cheir aflonyddwch annisgwyliedig. Mae'r cywion yn gadael y nyth pan maent oddeutu naw wythnos oed ac yn gwasgaru yn 14 wythnos oed.

Mae nifer o dylluanod gwynion ifanc yn marw yn ystod y cyfnod hwn, gyda 56-75% yn byw llai na blwyddyn.

Llun trwy garedigrwydd Ymddiriedolaeth y Dylluan Wen - Chris Robbins

Deddfwriaeth:

Gwarchodir dan Atodiadau 1 a 9 y Ddeddf Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt (diwygiwyd gan Ddeddf CGHT 2000) ac mae'n rhywogaeth o bwys cadwriaethol.

Statws a Dosbarthiad Presennol

Rhyngwladol

Efallai y dylluan wen yw'r aderyn tir mwyaf gwasgaredig yn y byd, ac fe'i gwelir ledled Ewrop.

DU

Awgrymodd arolwg cenedlaethol mwyaf diweddar (Toms et al. 2001) bod poblogaeth o 4000 pâr yn y DU.

Cymru

Awgrymodd arolwg a wnaethpwyd yn 1982 - 1985 bod cyfanswm o oddeutu 460 pâr o dylluanod gwynion yn bridio yng Nghymru, gostyngiad o 67% ers 1932 (Shawyer, 1987). Erbyn 2000, credwyd bod y cyfanswm wedi gostwng i uchafswm o 282 pâr yn unig (Green, 2002). Mewn arolwg o 195 o leoedd nythu hysbys darganfyddwyd bod 90% ohonynt mewn ysguboriau, 7.5% mewn coed a 2.5% mewn ogofâu neu glogwyni. O'r adeiladau a oedd yn cynnwys nythod, roedd oddeutu 77% yn adeiladau amaethyddol, 15% yn eiddo domestig, 3.5% yn adeiladau diwydiannol, 3.5% yn eglwysi ac 1% yn golomendai.

Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ni ymchwiliwyd i statws y dylluan wen ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Mwy na thebyg mae lleiafswm o 20 pâr, ond gall y niferoedd fod yn llawer uwch oherwydd mae'n ddigon posibl na welwyd pob un ohonynt.

Llun trwy garedigrwydd Ymddiriedolaeth Gadwraeth y Dylluan Wen

Ffactorau Presennol Sy'n Achosi Colled neu Ddirywiad

Colli lleoedd nythu addas

Fel a nodwyd uchod, rhaid i dylluanod gwynion gael lleoedd nythu tawel, fel ceubrennau hynafol ac adeiladau ffermydd hen ffasiwn yn enwedig ysguboriau. Collwyd llawer o'r adeiladau hyn o ganlyniad i ddatblygiadau, tra bod ceubrennau mawr wedi dirywio - oherwydd clefyd llwyfen yr Isalmaen, torri coed yn ddiachos ac ailblannu llai o goed yn lle'r rhai a gwympodd, mewn gwrychoedd neu ger ffensys.

Gaeafau maith caled

I oroesi gaeafau oer, rhaid i dylluanod gwynion hela'n llwyddiannus. Mae hela'n galetach os ceir glaw hirfaith neu lluwchwyntoedd sy'n gwneud hedfan yn anoddach, ac o ganlyniad i orchudd dwfn o eira mae'n anoddach cyrraedd yr ysglyfaeth. Ar dir uchel fydd bywyd anoddaf i dylluanod gwynion, ble mae'r aer yn oerach a'r gorchudd eira'n para'n hirach. Mae adar sydd mewn cyflwr gwael ar ôl gaeafau maith yn llai tebygol o fridio'n llwyddiannus.

Gwenwyno drwy blaladdwyr a gwenwynau llygod

Llun - cynefin tylluan wen, glaswellt twmpathog, trwy garedigrwydd Rhwydwaith Cadwraethol y Dylluan Wen

Trosglwyddir cemegau a ddefnyddir i reoli plâu i fyny'r gadwyn fwyd i'r tylluanod gwynion. Mae pryder cynyddol ynghylch defnyddio gwenwynau 'yr ail genhedliad' lle gall llygod wrthsefyll warffarin.

Colli bwyd ar gyfer y gaeaf

Hyd nes y 1940au, defnyddiwyd ydlannau i storio gwenith, sy'n denu llygod mawr a llygod i'r adeiladau. Collwyd mwy o wenith yn ystod cynaeafau, tra bod sofl, heb ei aredig drwy gydol y gaeaf yn gynefin da ar gyfer llygod mawr hefyd. Heddiw nid yw sofl i'w weld ac mae ffermydd ar y cyfan yn lleoedd glanach a'r storfeydd gwenith yn fwy diogel rhag llygod mawr felly ceir llai o ysglyfaethau ar gyfer y tylluanod gwynion.

Colli cynefinoedd porfa garw

Mae newidiadau mewn ffermio ers y 1960au wedi gostwng y cynefinoedd sydd ar gael i famaliaid bach yn sylweddol. Heddiw, mae caeau â chnydau ynddynt yn fwy nag yn y gorffennol ac fel arfer maent wedi eu haredig at yr ymyl a chollwyd milltiroedd o wrychoedd mewn rhai ardaloedd. O ganlyniad i'r newidiadau hyn collwyd ardaloedd o borfeydd garw a oedd yn lleoedd cyfoethog i'r tylluanod gwynion hela.

Damweiniau ar y ffyrdd

Gall diffyg porfeydd garw mewn mannau eraill orfodi'r tylluanod gwynion i ddibynnu ar ymylon ffyrdd ar gyfer hela - felly maent yn fwy tueddol o gael eu hanafu ar y ffordd. Darganfyddodd Shawyer (1998) bod cymaint â 52% o dylluanod gwynion y DU yn cael eu lladd gan draffig bob blwyddyn, tra amcangyfrifodd gwaith ymchwil yn y 1990au cynnar y bu farw rhwng 3000 a 5000 o dylluanod gwynion ar y ffyrdd bob blwyddyn.

Amcanion a Thargedau

1	***Cynnal a cheisio cynyddu'r ystod a'r boblogaeth bresennol o dylluanod gwynion yn Wrecsam.***
2	***Annog tirfeddianwyr/rheolwyr i ddarparu cynefinoedd porthi addas ar gyfer y tylluanod gwynion ac i ddarparu lleoedd nythu addas ar eu cyfer.***
3	***Sicrhau bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth o dylluanod gwynion ynghyd â gwerthfawrogiad o'u harwyddocâd yn yr amgylchedd.***
4	***Monitro blynyddo o ymdrechion tylluanod gwynion i nythu gan weithwyr maes trwyddedig i'w cynnwys ar gronfa ddata a gedwir ar hyn o bryd gan Grŵp Astudio Adar Ysglyfaethus Cymru.***
5	***Cynnwys ystyriaethau yn y canllaw cynllunio i ddiogelu lleoedd nythu presennol a rhai posib yn y sir.***

Gweithrediadau Presennol

- Gyda chynnydd mewn cynlluniau amaethyddol-amgylcheddol yn y blynyddoedd diwethaf, manteisiodd y dylluan wen mewn sawl ffordd naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae enghreifftiau'n cynnwys taliadau i gynnal ymylon o borfeydd garw a phlannu gwrychoedd.
- Yn lleol, mae gweithwyr trwyddedig o Grŵp Astudio Adar Ysglyfaethus Cymru - Gogledd Cymru (WSRG - NW) yn monitro safleoedd, yn rhoi dolen ar yr adar, ac yn asesu llwyddiant y broses bridio. Maent hefyd yn gweithio ar y cyd â'r RSPB, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), Y Comisiwn Coedwigaeth (CC), sefydliadau gwarchod bywyd gwyllt a thirfeddianwyr lleol i annog tylluanod gwynion i barhau i fridio neu ailboblogi mewn cynefinoedd addas.
- Mae cynllun amaethyddol-amgylcheddol CCGC sef Tir Gofal, yn annog ffermwyr i gofrestru ar y cynllun er mwyn gwneud darpariaethau i dylluanod gwynion lle'n bosibl.
- Mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn rheoli coetiroedd llydan-ddeiliog a rhai conifferaidd fel cynefinoedd ar gyfer ysglyfaethau'r dylluan wen. Maent hefyd yn gosod nythod/blychau clwydo i'r dylluan wen a'u monitro i weld faint ohonynt sy'n trigo ynddynt ac i weld pa mor llwyddiannus y maent yn bridio.

Llun trwy garedigrwydd Ymddiriedolaeth y Dylluan

Cyswllt â Chynlluniau Gweithredu Eraill:

Cynlluniau Gweithredu Rhywogaethau y Dylluan Wen Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Conwy a Sir Gaer.

Ffynonellau Gwybodaeth

Bunn, D.S., Warburton, A.B. and Wilson, R.D.S. 1982. The Barn Owl. Calton: Poyser

Green, J. (Editor) 2002. Birds in Wales 1992-2000. Cymdeithas Adaregol Cymru

Shawyer, C. R. 1987. The Barn Owl in the British Isles: Its Past, Present and Future. Hertford: The Hawk and Owl Trust

Shawyer, C.R. 1998. The Barn Owl. Wheathampstead: Arlequin Press

Toms, M.P., Crick, H.P.Q. and Shawyer, C.R. 1991. The status of breeding Barn Owls Tyto alba in the United Kingdom 1995-97. Bird Study 48: 23-47.

Awduron: John Lawton Roberts, Ian Cartwright, Ian M. Spence (WRSG-NW). TQ13 7HU
www.barnowltrust.org.uk

Rhwydwaith Cadwraethol y Dylluan Wen
www.bocn.org

Byrfoddau

CCGC -
Cyngor Cefn Gwlad Cymru

CC - Comisiwn Coedwigaeth

CBSW -
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

GCGBSW -
Gwasanaethau Cefn Gwlad Bwrdeistref Sirol Wrecsam

WRSG-NW -
Grŵp Astudio Adar Ysglyfaethus - Gogledd Cymru

GBW -
Grŵp Bioamrywiaeth Wrecsam

Camau Arfaethedig gan Bartneriaid Arweiniol

Polisi a deddfwriaeth	Partner Arweiniol	Targed	Nod
Lle'n bosibl, defnyddio grantiau amaethyddol-amgylcheddol (e.e. Tir Gofal) fel eu bod o fantais i gynlluniau sy'n arwain at ffermio cynaliadwy a gwarchod cynefinoedd bywyd gwyllt yn enwedig mannau bwydo addas i dylluanod gwynion.	CCGC	O 2004 ymlaen	1,2
Mabwysiadu polisïau a gweithdrefnau a fydd o fantais i dylluanod gwynion mewn perthynas â darparu a gwarchod lleoedd nythu. Dylid gorfodi amodau cynllunio ar drosi adeiladau a allai effeithio ar dylluanod gwynion. Dylid cynnwys blychau, tyllau i dylluanod neu ddulliau eraill i'w galluogi i nythu mewn unrhyw gynlluniau ar gyfer gwaith trosi. Ni ddylid gwneud gwaith adeiladu cysylltiedig rhwng diwedd mis Mawrth a diwedd mis Medi.	CBSW	O 2004 ymlaen	1,5
Rheoli a Gwarchod Safleoedd/Rhywogaethau			
Annog darparu ar gyfer a chynyddu nifer y cynefinoedd bwydo addas yn enwedig o amgylch lleoedd bridio hysbys.	CBSW, CCGC	Erbyn 2008	1,2
Annog cadw ymylon glaswelltog heb eu gwella a phentiroedd o amgylch caeau âr.	CBSW, CCGC		1,2
Darparu blychau nythu mewn cynefinoedd bwydo addas.	WRSG-NW	Erbyn 2010	1
Ymgynghorol			
Paratoi a chylchredeg canllawiau i dirfeddianwyr a datblygwyr ynghylch cynefinoedd bwydo addas a lleoedd nythu addas.	WRSG-NW CBSW	O 2004 ymlaen	1,2
Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd			
Annog aelodau'r cyhoedd i adrodd amdanynt yn cael eu hanafu ar y ffyrdd i WRSG-NW.	CBSW, CCGC	O 2004 ymlaen	1,2,3
Codi ymwybyddiaeth ymysg tirfeddianwyr a rheolwyr o'r angen i weithredu er mwyn gwarchod tylluanod gwynion a sut gallant gyfrannu at hyn.	CBSW, CC, CCGC	O 2004 ymlaen	1,2
Ystyried sefydlu prosiect tylluanod gwynion er mwyn codi ymwybyddiaeth o ofynion yr aderyn a gofynion bioamrywiaeth yn gyffredinol.	GBW, WRSG-NW gwirfoddolwyr, y cyhoedd	Erbyn 2005	3
Arolwg, ymchwil a monitro			
Monitro holl leoedd nythu hysbys a hygyrch y dylluan wen.	WRSG-NW	Yn flynyddol	1,4
Archwilio i gynnwys pelenni mewn clwydydd a lleoedd nythu er mwyn gwella ein gwybodaeth am eu hoff fwyd lleol.	WRSG-NW	Pan yn bosibl	4
Adolygu'r cynllun hwn bob pum mlynedd.	GBW	2010	1

Awdur John Roberts

Gwybodaeth Bellach

Swyddog Bioamrywiaeth
Is-adran yr Amgylchedd,
Adran Gynllunio,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam,
Stryt y Lampint,
Wrecsam, LL11 1AR

ffôn: 01978 292019
ffacs: 01978 292502
e-bost: biodiversity@wrexham.gov.uk
gwefan: www.wrexham.gov.uk/planning

Darluniau trwy garedigrwydd English Nature
Lluniau: Ymddiriedolaeth y Dylluan Wen - www.barnowltrust.org.uk
Rhwydwaith Cadwraethol y Dylluan Wen - www.bocn.org

Mae'r daflen hon ar gael ar wahanol ffurfiau
Ffoniwch: 01978 292019

Cynhyrchwyd gan yr Adran Gynllunio, Hydref 2004